

CAMFANTEISIO'N RHYWIOL AR BLANT

Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) yn fath o gam-drin rhywiol. Mae'n digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd grym i orfodi neu dwyllo plentyn neu unigolyn ifanc o dan 18 oed i gyflawni neu gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol:

- a) yn gyfnewid am rywbeth y mae'r dioddefwr ei angen neu ei eisiau, a/neu
- b) er budd ariannol neu i godi statws y troseddwr neu'r hwylyswr. Gallai'r dioddefwr fod wedi ei ecsbloetio'n rhywiol hyd yn oed osyw'n ymddangos fod y gweithgaredd rhywiol yn gydsyniol, Nid yw CSE bob amser yn cynnwys cyswllt corfforol, gall hefyd ddigwyddrwy ddefnyddio technoleg.

Mae CSE yn drosedd ofnadwy sydd â chanlyniadau dinistriol a phellgyrhaeddol i'r dioddefwr, eu teulu a chymdeithas. Nid yw'n gyfyngedig i unrhyw un ardal ddaearyddol na chefnidir ethnig na chymdeithasol. Mae bod â diffiniad cyffredin o CSE yn hollbwysig o ran adnabod, monitro a sicrhau ymatebion amlasiantaeth effeithiol.

Mae effeithiau CSE yn eang a gallant fod yn ddinistriol ac yn hirdymor. Mae hyn yn arbennig o wir os nad yw dioddefwyr yn cael y gefnogaeth briodol. Gall dioddefwyr ddiodeff amrywiaeth o effeithiau iechyd gan gynnwys anafiadau corfforol, heintiau a drosglwyddir drwy ryw achanlyniadau gynaecolegol mwy hirdymor I ferched.



Gall pant/pobl ifanc brofi trawma emosiynol/salwch meddwl megis iselder, hunan-niweidio, meddwl am ladd eu hunain, anhwylder straeon wedi trawma a phroblemau cyffuriau/alcohol.

Mae CSE hefyd yn effeithio ar blentyn/unigolyn ifanc yn y tymor hirach gan ei fod yn gysylltiedig â

chyfraddau uwch o droseddu ymysg pobl ifanc, rhagolygon addysgol gwael, ymgysylltiad â gwaith rhyw fel oedolyn, ymddieithrio rhag teulu a ffrindiau, perthnasau negyddol yn y dyfodol a mwy o risg o ddiodeff mathau eraill o drais a chamdriniaeth

Gall CSE hefyd effeithio ar gylchoedd cyfeillgarwch, rhwydweithiau teulu a'r gymuned ehangach.

ADNABOD:

Fel unrhyw fath arall o gam-drin plant yn rhywiol, gall CSE :

- Effeithio ar unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc (bachgen neuferch) o dan 18 oed, gan gynnwys rhai 16/17 oed sy'n gallucydsynio'n gyfreithiol i gael rhyw. Mae'n gam-drin – hyd ynoed os yw'n ymddangos ei fod yn gydsyniol
- Gall gynnwys grym a/neu ddulliau cymhellol o ennyncydsyniad a gall fod trais neu fgythiadau o drais ynghlwm ag o, ond nid bob amser
- Gall ddigwydd heb fod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn ymwybodol o hynny (e.e. poblerail yn creu fideos/delweddau ac yn eu postio yn y cyfryngau cymdeithasol)

MATERION ALLWEDOL:

Gall y ffaith fod plant a phobl ifanc yn aml yn credu eu bod nhw wedi cael dewis eu hatal nhw rhag gofyn am gefnogaeth

Mae deall y cyd-destun y mae dioddefwyr yn gwneud eu 'dewis' ynddo yn hollbwysig o ran ein gallu ni i ymateb yn effeithiol i CSE.

Mae'r ymateb i CSE yn gofyn am symudiad tuag at ystyried rhieni/gofalwyr yn bartneriaid yn y broses ddiogelu (yn hytrach nag fel ffynhonnell o risg).

